# *Trysori gorffennol Cymru, adeiladu i'r dyfodol*

Mae Tai Hanesyddol Cymru yn cynrychioli bron i 100 o dai a gerddi hanesyddol, sy'n cynnwys rhai o'r mannau mwyaf iconig a hanesyddol ar draws Cymru. Yn 2024 croesawyd bron i 387,000 o ymwelwyr gan aelodau Tai Hanesyddol Cymru gan greu dwy filiwn o bunnoedd i economi Cymru drwy wariant ymwelwyr. Mae llawer o'r mannau hanesyddol hyn yn atyniadau hanfodol bwysig, yn fusnesau bychain ac yn gyflogwyr sy'n cyfrannu at economi leol sydd yn aml yn fregus mewn sawl ardal wledig yng Nghymru.

Rydym am weithio'n agos â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau polisi amgylcheddol lle caiff ein hatyniadau treftadaeth a'r economi leol yr amodau cywir i ddatblygu'r seiliau cynaliadwy, yn economaidd ac yn amgylcheddol, fydd yn hybu twristiaid i deithio ar hyd a lled ein gwlad.


Llun drwy garedigrwydd Nantclwyd y Dre

## 1. Diogelu ein treftadaeth rhag canlyniadau anfwriadol

Mae ein treftadaeth unigryw yn dibynnu ar fframwaith o gefnogaeth ariannol a rheoleiddiol. Gall newidiadau i reoliadau, megis ar letygarwch byrdymor gael effaith andwyol ar fusnesau tai hanesyddol. Mae angen i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ystyried effaith y newidiadau i'r fframwaith reoli ar ein treftadaeth fregus ac i drafod hyn o ddifrif gyda'r sector.

## 2. Creu Cymru sy'n gystadleuol ac yn gyrchfan gynaliadwy i dwristiaid

Mae creu marchnad gynaliadwy a bywiog yn hanfodol i'n tai cofrestredig a'n cymunedau gwledig ar hyd a lled Cymru.Rydym yn cefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi flaenoriaethu twristiaeth dreftadaeth ond gall hyn ond ffynnu gydag isadeiledd priodol. Mae angen hybu lletygarwch byrdymor mewn mannau nad sy'n effeithio'n andwyol ar anghenion tai i bobl leol a sicrhau bod unrhyw dreth ar dwristiaeth yn cael ei fuddsoddi er lles economi twristiaeth leol.

## 3. Datgloi golud cudd yr economi wledig

Mae busnesau ein tai hanesyddol yn dwyn llu o fanteision i'r economi leol, ond maent yn cael eu llesteirio gan gysylltedd gwantan. Mae gofyn am ymrwymiad llwyrach gan Lywodraeth Cymru i gydweithio â Llywodraeth San Steffan i wella isadeiledd cefn gwlad er mwyn i'r economi wledig ffynnu.

## 4. Cefnogi'r defnydd o ynni adnewyddadwy a chynaliadwy

Rhaid i berchnogion a gwarcheidwaid allu gweithredu mesurau ynni yn effeithiol a gofalus er mwyn gwarchod adeiladau traddodiadol ac unigryw Cymru. Fel yr amlinellir yn y Strategaeth Wres i Gymru, mae angen system o gynllunio er mwyn cyrraedd sero net. Byddai rhagor o fuddsoddiad mewn egni adnewyddadwy i gymunedau gwledig nad sy'n rhan o'r rhwydwaith, yn lleihau ôl troed carbon a chostau tanwydd adnewyddadwy, ac yn cynyddu hunanddigonedd. Wrth integreiddio'r sector treftadaeth â phrojectau ynni gwyrdd gallwn greu dyfodol cynaliadwy i adeiladau hanesyddol a thraddodiadol Cymru.

## 5. Ysgogi buddsoddiad mewn projectau atgyweirio

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddeisyfu Llywodraeth San Steffan i gyflwyno cynllun cymorth Treth ar Werth ar atgyweirio a chynnal a chadw atyniadau treftadaeth sydd ar agor i'r cyhoedd. Mae hyn yn fater o'r pwys mwyaf er galluogi'r atyniadau hyn i fuddsoddi mewn atgyweirio hanfodol a chynaliadwy, fydd hefyd yn bywiogi economïau lleol.


Llun drwy garedigrwydd Castell Picton

TAI HANESYDDOL CYMRU